Arloesi

# Leader Optec

## Mae cwmni cydosod ceblau ffeibr optig o Gymru yn ehangu i'r farchnad storio data fyd-eang, sydd werth $23 biliwn, diolch i gymorth a chyllid Llywodraeth Cymru



Profi ceblau yn Leader Optec

Pan gafodd swyddi Paul Desmond a chyn-gydweithiwr iddo eu dileu ym 1993, mentrodd y ddau i sefydlu busnes terfynu ffeibr optig yn Sir Ddinbych. Roedden nhw'n benthyg cyfarpar i ddechrau ond, ers hynny, mae Desmond wedi troi **Leader Optec** yn gwmni gwerth miliynau sydd â 37 o aelodau staff.

Mae Leader Optec un creu cydosodiadau ceblau ffeibr optig wedi'u teilwra ac o safon uchel, gan deilwra eu perfformiad, maint, lliw a labeli er mwyn bodloni anghenion cwsmeriaid sydd wedi'u lleoli yn y DU yn bennaf. Mae'r gwifrau yn cael eu defnyddio mewn rhwydweithiau cyflym iawn, ac maent yn defnyddio goleuni yn hytrach na thrydan i drosglwyddo symiau enfawr o ddata o'r gweinydd i'r swîts.

Yn ogystal â'r gwasanaeth gweithgynhyrchu wedi'i deilwra yn y DU, mae'r cwmni hefyd yn mewnforio cyfluniadau maint safonol er mwyn cyd-fynd â cheisiadau lle mae cynnyrch rhatach yn ddigonol. Mae'r cynnydd ym maes cyfrifiadura'r 'cwmwl' a defnydd cynyddol o 'ryngrwyd gwrthrychau', ar gyfer dyfeisiau cartrefi ac adeiladau 'clyfar', wedi gweld canolfannau storio data trydydd parti eang yn cael eu sefydlu, sy'n cynnwys llawer o

**Cyraeddiadau Allweddol Leader Optec:**

- Sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn prynu'r cyfarpar diweddaraf sydd ei angen i greu 'cysylltydd' newydd.
- Datblygu ateb tai a silff unigryw, sy'n cael ei greu yng Nghymru.
- Cofrestru hawliau eiddo deallusol ar gyfer y cynnyrch newydd dan yr enw LiteLinke.
- Trawsnewid Leader Optec yn gwmni gwerth miliynau sydd â 37 aelod staff.

geblau ffeibr optig. Gwelodd Desmond yr angen am gynnyrch cywasgedig sy'n arbed lle, er mwyn dal y ceblau hyn.

Gweithiodd Leader Optec gyda thîm Arloesi Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid i brynu'r cyfarpar diweddaraf sydd ei angen er mwyn gweithgynhyrchu a chydosod y cysylltydd MTP® newydd. Aeth ymlaen i ddatblygu ateb tai a silff unigryw ar gyfer y cynnyrch, y mae modd ei weithgynhyrchu yng Nghymru.

Cafodd y cwmni gymorth, hefyd, i gofrestru hawliau eiddo deallusol ar gyfer y cynnyrch newydd, dan yr enw LiteLinke – brand a ddatblygwyd yn flaenorol ganddynt ar gyfer prosiect na aeth i'r farchnad. Gan edrych at y dyfodol, â nodau masnach wedi eu sicrhau a chyfarpar i sicrhau bod y broses weithgynhyrchu yn effeithlon ac yn gywir, mae'r cwmni wedi penodi dau bartner dosbarthu yn y DU, ac mae'n ehangu i brif farchnadoedd Ewrop, gan gynnwys Ffrainc, Yr Almaen, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd, Sgandinafia a Sbaen.

Mae rhoi cymorth i fusnesau byd-eang fel Leader Optec, sy'n dod â chyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, yn un o amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd wedi'i llunio er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

> "Rydym wedi bod yn ffodus i dderbyn manteision cymorth Llywodraeth Cymru mewn sawl ffordd – o gyllid i arbenigedd. Mae derbyn cymorth ariannol gan y tîm arloesi wedi ein galluogi i brynu cyfarpar sydd wedi cael effaith ar ein heffeithlonrwydd fwy neu lai yn syth, ac roedd y cyngor ynghylch eiddo deallusol yn amhrisiadwy."
> **Paul Desmond, Rheolwr Gyfarwyddwr, Leader Optec.**

Busnes Cymru | Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru | 03000 6 03000
innovation@wales.gsi.gov.uk | businesswales.gov.wales/cy/innovation

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

WG30458 / © Hawlfraint y Goron 2017 OGL